

Fflatiau Gann - Ardal bwysig

Gann Flats - An important area

Mae'r ardal hon yn safle bywyd gwyllt gwarchoddedig o bwys, yn enwedig oherwydd ei chynefinoedd lleidiog bregus ac amrywiol. Mae'n rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Dyfrffordd Aberdaugleddau ac Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro, sy'n cydnabod ac yn diogelu'n gyfreithiol, ei bwysigrwydd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.


This area is an important and protected wildlife site, especially for its fragile and diverse muddy habitats. Gann Flats is within the Milford Haven Waterway Site of Special Scientific Interest (SSSI) and Pembrokeshire Marine Special Area of Conservation (SAC), which recognise and legally protect its regional, national and international importance.



Peunlynghyren yn Fflatiau Gann © Sue Burton
Peacock worm (Sabella pavonica) at Gann © Sue Burton



Lleden ar wely'r môr yn Fflatiau Gann © Sue Burton
Plaice (a flatfish) on the seabed at Gann Flats © Sue Burton



Enghraifft o'r difrod a achoswyd yn y Gann drwy balu dwys am abwyd




Example of damage caused at Gann by intense bait digging

Fflat llaid iach fel rydym am ei weld yn y Gann



Healthy mudflat that we want to achieve at Gann

DIM PALU YN Y PARTHAU COCH



NO DIGGING IN THE RED ZONE



Anemoni coesynnog mewn graean lleidiog © NRW
Daisy anemone in muddy gravel © NRW



Amrywiaeth y graean lleidiog ar y traeth isaf © Jon Moore, CALM
The diversity of the lower shore muddy gravel © Jon Moore, CALM

Mae'r cynefin graean lleidiog cysgodol yn brin iawn. Mae'n lle arbennig a gall palu dwys am abwyd achosi difrod difrifol.

The sheltered muddy gravel habitat on this shore is very rare. This is a special place and intensive bait digging can cause serious damage.

Os ydych yn palu am abwyd ar gyfer defnydd personol yn y safle pwysig hwn, mae'n rhaid i chi:

If you dig for bait for personal use at this important site, you must:

- Osgoi'r ardaloedd mwyaf sensitif a ddangosir yn goch ar y map
- Cloddio cyn lleied o dyllau ag sydd bosibl
- Llenwi'r tyllau ar ôl palu er mwyn helpu i adfer y safle

- Avoid the most sensitive areas identified in red on the map
- Dig as few holes as possible
- Fill in holes after digging to help the site recover

Ni chaniateir palu am abwyd ar gyfer dibenion masnachol.

Bait digging for commercial purposes is not permitted.

Mae'n drosedd dinistrio, difrodi neu aflonyddu ar, yn fwriadol neu yn ddifeddwl, nodweddion y SoDdGA. Bydd unrhyw un a fydd yn ei gael yn euog o drosedd o'r fath yn derbyn dirwy.

It is a criminal offence to intentionally or recklessly destroy, damage or disturb the features of the SSSI. Anyone found guilty of such an offence will be subject to a fine.

Er mwyn rhoi gwybod am bryderon ynglŷn â gweithgareddau niweidiol cysylltwch ag CNC ar 0300 065 3000, neu e-bost : icc@naturalresourceswales.gov.uk

To report concerns about damaging activity contact NRW on 0300 065 3000, email : icc@naturalresourceswales.gov.uk

